# Gwahanol ffyrdd o archebu lleoliad

National Autistic Society Cymru

## 1. Archebu ar-lein

Mae gan rai canolfannau wefan gyda gwasanaeth archebu ar-lein e.e. bowlio deg.

Sgroliwch drwy'r wefan i ddod o hyd i'r gweithgaredd a'r fargen rydych chi'n chwilio amdani.

Bydd angen rhoi'r canlynol:

1. lleoliad
2. Prosiect
3. tro
4. nifer y gemau
5. nifer yr oedolion sy'n chwarae.

Yna cliciwch y botwm **Get Prices & Availability**.



## 1. Archebu ar-lein parhau...

Os yw'r cynnig yn cynnwys bwyd, bydd angen i chi nodi dewisiadau bwyd pawb sy'n dod. Ewch â'r rhestr hon gyda chi i'r digwyddiad rhag ofn i bobl anghofio beth maen nhw wedi'i archebu.




| Enw | Byrgyr Caws | Byrgyr Cyw Iâr | Byrgyr Ffa Sbeislyd | The Big Dog |
|---|---|---|---|---|
| Jack Blogs | | | X | |

Ar ôl rhoi dewisiadau pawb, pwyswch **'Confirm'** a continue i dalu.

## 2. E-bostio'r lleoliad

### Templed e-bost a awgrymir ar gyfer archebu lleoliad

Annwyl Bob,

Fi yw arweinydd Grŵp Cymdeithasol Oedolion Awtistig Wrecsam. Hoffwn archebu bwrdd ym mwyty Yummy Food:

- ar ddydd Sadwrn 30 Ionawr 2022
- o 6pm ymlaen
- i 12 o bobl.

Bydden ni'n hoffi cael bwrdd tawel, yn bell oddi wrth ddrws y gegin.

A wnewch chi gadarnhau'r archeb? Edrychaf ymlaen at glywed gennych chi'n fuan.

Cofion gorau,

Megan Jones

## 3. Ffonio'r lleoliad

**Sgript llais a awgrymir ar gyfer archebu bwrdd mewn bwyty**



Chi: Helo, bwyty Yummy Food?

Nhw. Ie

Chi: Megan Jones ydw i ac rwy'n arweinydd Grŵp Cymdeithasol Oedolion Awtistig Wrecsam. Byddwn i'n hoffi archebu bwrdd tawel yn bell oddi wrth ddrws y gegin ar:

- **Dydd Sadwrn 11 Rhagfyr**
- o 6pm
- i 12 o bobl.

Nhw. Bydd, bydd hynny'n iawn. Alla i gael eich rhif ffôn cyswllt plîs?

Chi: 089764532

Nhw. Iawn, mae hynny wedi cael ei drefnu ar eich cyfer chi.

Chi: Diolch i chi, welwn ni chi nos Sadwrn am 6pm Hwyl.